# Atodiadau

1. Sut i gysylltu â ni
2. Ein cyfeiriadau cysylltu eraill
3. Rhestr o ffurflenni a thaflenni cwota llaeth
4. Rheoliadau a chosbau ynghylch cwotâu llaeth
5. Enghraifft o lythyr Rhoi Gwybod am Newidiadau
6. Cyfrifiad seiliau braster menyn
7. Geirfa

This publication was archived on 31 March 2015

# Atodiad 1 Sut i gysylltu â staff cwotâu llaeth:

**Ymholiadau ysgrifenedig:**

Rural Payments Agency
Milk Quotas Section
Sterling House
Dix's Field
Exeter
EX1 1QA

E-bost: Milk.Quotas@rpa.gsi.gov.uk

**Ymholiadau ffôn:**

Llinell Gymorth Cwotâu Llaeth: 01392 315763

Ffacs Cwotâu Llaeth: 01392 315701

## Rhoi Gwybod am Newidiadau i'ch busnes:

**Ymholiadau ysgrifenedig:**

Canolfan Gwasanaethau i Gwsmeriaid

Rural Payments Agency
PO Box 300
Sheffield
S95 1AA

E-bost csc@rpa.gsi.gov.uk

**Ymholiadau ffôn:**

Canolfan Gwasanaethau i Gwsmeriaid: 0845 603 7777

This publication was archived on 31 March 2015

## Gwybodaeth Ychwanegol

Rydym yn ymroddedig i roi gwasanaeth cwsmer da ac yn croesawu'ch adborth gan ei fod yn ein helpu i wella.
Os nad ydych yn fodlon â'r gwasanaeth a dderbynioch neu benderfyniad a wnaethom ac yr hoffech gwyno, gallwch:

- ein ffonio ar 0845 603 7777;
- anfon e-bost atom yn csc@rpa.gsi.gov.uk; neu
- ysgrifennwch atom.

Gallwch hefyd gwyno wyneb yn wyneb gydag unrhyw un sy'n cynrychioli'r RPA.

Am ragor o wybodaeth, darllenwch y *Canllaw Cwynion ac Apeliadau* ar ein gwefan yn www.rpa.defra.gov.uk neu gofynnwch am gopi gan ein Canolfan Gwasanaeth Cwsmeriaid trwy'n ffonio ar 0845 603 7777.

## Twyll

Os gwyddoch am dwyll a gyflawnwyd yn groes i reolau'r Cwotâu Llaeth neu unrhyw gynllun amaethyddol arall, cysylltwch â Llinell Dwyll yr Asiantaeth - 0800 347 347. Bydd staff wedi'u hyfforddi yn ateb eich galwad ar y llinell hon yn ystod oriau swyddfa. Mae peiriant ateb ar gael ar adegau eraill. Mae galwadau i Linell Dwyll yr Asiantaeth yn rhad ac am ddim a chyfrinachol. Nid oes raid ichi roi eich enw os nad ydych eisiau gwneud hynny.

This publication was archived on 31 March 2015

# Atodiad 2 Cyfeiriad Cysylltu

## Cyfeiriadau cysylltu eraill

Mae'r atodiad hwn yn rhestru Swyddfeydd yn Lloegr, Cymru, Yr Alban a Gogledd Iwerddon sy'n cyflawni rhai cyfrifoldebau cwotâu llaeth yn eu hardaloedd eu hunain.

### Lloegr

**Department for Environment, Food and Rural Affairs**
Livestock Products Division
Area 5D
9 Millbank
c/o Nobel House
17 Smith Square
London
SW1P 3JR
Ffôn: 020 7238 3096

### Gogledd Iwerddon

**Department of Agriculture and Rural Development**
Farm Policy and Central Support
Dundonald House
Upper Newtownards Road
Belfast
BT4 3SB
Ffôn: 028 9052 4680

### Yr Alban

**Scottish Government Rural Payments and Inspections Directorate**
Milk Branch
B1 Spur
Saughton House
Broomhouse Drive
Edinburgh
EH11 3XD
Ffôn: 0300 244 9290

### Cymru

**Is-adran Taliadau Gwledig Llywodraeth Cynulliad Cymru**
Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
Caerdydd
CF1 3NQ
Ffôn: 029 2082 3835

This publication was archived on 31 March 2015

## Swyddfeydd Llywodraeth Cynulliad Cymru

### Caerdydd

Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
Caerdydd
CF1 3NQ
Ffôn: 029 2082 3835

### Swyddfa Adrannol Caernarfon

*(yn gwasanaethu Gwynedd, Ynys Môn, Conwy, Sir y Fflint, Sir Ddinbych a Wrecsam)*
Adeiladau'r Llywodraeth
Penrallt
Caernarfon Gwynedd
LL55 1EP
Ffôn: 01286 674144
Ffacs: 01286 677749

### Swyddfa Adrannol Caerfyrddin

*((yn gwasanaethu Dyfed, Ceredigion a Sir Benfro)*
Adeiladau'r Llywodraeth
Teras Picton
Caerfyrddin
Dyfed
SA31 3BT
Ffôn: 01267 225300
Ffacs: 01267 235964

### Swyddfa Adrannol Llandrindod

*((yn gwasanaethu Powys, Gwent, Canol, De a Gorllewin Morgannwg)*
Adeiladau'r Llywodraeth
Heol y Ffynnon Dwyrain
Llandrindod
Powys
LD1 5HA
Ffôn: 01597 823777
Ffacs: 01597 828304

This publication was archived on 31 March 2015

# Atodiad 3 Rhestr o ffurflenni cwota llaeth

| | |
|---|---|
| MQ/1 | Cais i gofrestru trosglwyddo cwota llaeth yn barhaol |
| MQ/3 | Hysbysiad am drosglwyddo (les) cwota llaeth dros dro |
| MQ/6 | Cais i drosi cwota llaeth yn barhaol |
| MQ/8 | Bwriad i ddosrannu cwota i dir |
| MQ/9 | Cais am wybodaeth a gedwir ar y gofrestr cwotâu |
| MQ/10 | Symud cwota llaeth rhwng prynwyr |
| MQ/11 | Cais i gael eich cymeradwyo yn brynwr |
| MQ/12 | Adroddiad misol prynwr |
| MQ/13 | Adroddiad blynyddol prynwr |
| MQ/15 | Datganiad blynyddol o werthiannau uniongyrchol a chais i drosi cwota dros dro |
| MQ/16 | Cais am ailddyraniad cwota dros dro: cyfyngiadau ar symud buchesi |
| MQ/25D | Cofnodion misol gwerthwr uniongyrchol |
| MQ/25W | Cofnodion misol cynhyrchwr cyfanwerthu |
| MQ/26 | Symud cwota llaeth dros dro rhwng prynwyr |
| MQ/42 | Awdurdod i ryddhau gwybodaeth a gedwir ar y gofrestr cwotâu llaeth |
| MQ/43 | Cais i Adfer Cwota |

## Taflenni eraill am y cynllun

Cadw Cofnodion

MQ Llawlyfr Prynwyr

Mae copïau o'n ffurflenni, nodiadau esboniadol a thaflenni ar gael o'n gwefan www.rpa.defra.gov.uk, neu trwy gysylltu â ni (trowch at Atodiad 1) neu trwy frocer cwotâu.

This publication was archived on 31 March 2015

# Atodiad 4 Rheoliadau a chosbau ynghylch cwotâu llaeth

## Rheoliadau

Rheolir gweinyddiaeth cwotâu llaeth gan y Rheoliadau Canlynol:

**Rheoliad y Cyngor (EEC) Rhif 1234/2007** – sut mae'r lefi yn y sector llaeth a chynnyrch llaeth yn cael ei sefydlu

| Erthygl | | Adran(nau)'r Canllaw |
|---|---|---|
| 65 | Diffiniadau | Atodiad 7 |
| 66 | Parhad y cynllun cwotâu am 7 mlynedd o 1/4/2008 a gosod cwotâu llaeth | Rhan 2-1 |
| 67 | Dyrannu cwota i gynhyrchwyr | Rhan 2-2 |
| 70 | Seiliau braster menyn cenedlaethol ac unigol | Rhan 10 |
| 71 | Cronfeydd wrth gefn cenedlaethol | Rhan 14-1 |
| 72 | Atalfaelu cwota am beidio ei ddefnyddio | Rhan 14 |
| 73 | Trosglwyddo cwota dros dro | Rhan 9 |
| 74 | Trosglwyddo cwota'n barhaol | Rhan 8 |
| 75 | Ailstrwythuro cynhyrchu llaeth | Rhan 8-9 |
| 79 | Cyfrifoldeb cynhyrchwyr am eu cyfran o'r lefi | Rhan 13-2 |
| 80 | Lefi cyfanwerthu | Rhan 13-2 |
| 81 | Rôl cynhyrchwyr | Rhan 7 |
| 82 | Cymeradwyo prynwr | Rhan 7 |
| 83 | Lefi gwerthiannau uniongyrchol | Rhan 6 |

**Rheoliad y Comisiwn (EEC) Rhif 595/2004** – *y rheolau am weithredu'r lefi ar laeth a chynnyrch llaeth*

| Erthygl | | Adran(nau)'r Canllaw |
|---|---|---|
| 6 | Mae'r holl laeth sy'n gadael daliad cynhyrchwr yn cyfrif ar gyfer cwota | Rhannau 5-1 & 6-1 |
| | Mae cyflenwadau llaeth ar gyfer prosesu contract yn cael eu hystyried yn gyflenwadau cyfanwerthu | Rhan 6-1 |
| 6 | Cyfrif lefi ar lefel genedlaethol | Rhan 13 |
| 7 | Seiliau braster menyn sy'n berthnasol wrth ddyrannu, trosglwyddo neu drosi cwota | Rhan 10-1 |
| 8 | Ar ddiwedd y flwyddyn gwota rhaid i brynwyr baratoi datganiad ar gyfer pob cynhyrchwr yn nodi'r cwota a'r sail braster menyn, ynghyd â chyflenwadau a chynnwys braster | Rhan 7-2 |
| 8 | Cyflwyno adroddiadau blynyddol cynhyrchwyr a chosbau am eu cyflwyno'n hwyr | Rhan 7-2 |
| 8 | Cyfrif cyflenwadau wedi'u haddasu ar gyfer braster menyn | Rhan 10-2 |
| 11 | Gwerthiannau uniongyrchol | Rhan 6 |

This publication was archived on 31 March 2015

| Erthygl | | Adran(nau)'r Canllaw |
|---|---|---|
| 12 | Rhaid i gynhyrchwyr brofi fod y ffigwr cyfwerth â llaeth cyflawn ar gyfer cyflenwadau llaeth sgim wedi cael ei gyfrif yn gywir | Rhan 6-3 |
| 12 | Cyfrif ffigyrau cyfwerth â llaeth cyflawn ar gyfer cynnyrch llaeth | Rhan 6-3 |
| 13 | Hysbysiad am y lefi i gynhyrchwyr | Rhan 13 |
| 13 | Mae cwota na ddyrannwyd mohono i gynhyrchwyr yn mynd i'r gronfa wrth gefn genedlaethol | |
| 13-15 | Talu lefi a chosb am daliadau hwyr | Rhan 13-4 |
| 18 | Awdurdodi Aelod Wladwriaethau i gymryd pa gamau ychwanegol bynnag sydd eu hangen i sicrhau bod y lefi'n cael ei dalu erbyn y dyddiad cau | Rhan 13 |
| 24 | Cadw cofnodion a dilysu | Rhannau 5, 7 & 15 |

**Rheoliadau'r Cyngor (EEC) Rhifau 764/89, 1639/91, 2055/93** a **Rheoliad y Comisiwn (EEC) 2562/93** – *dyrannu cwota arbennig i rai cynhyrchwyr a'r rheolau ar gyfer gwneud y dyraniadau hyn.*

**SI 2002 Rhif 458: Rheoliadau Cwotâu Cynnyrch Llaeth (Darpariaethau Cyffredinol) 2002**
**SI 2005 Rhif 465: Rheoliadau Cwotâu Cynnyrch Llaeth 2005** *(y rheoliadau cwota ar gyfer Lloegr)*
**SI 2005 Rhif 70: Rheoliadau Cwotâu Cynnyrch Llaeth (Gogledd Iwerddon) 2005**
**SI 2005 Rhif 91: Rheoliadau Cwotâu Cynnyrch Llaeth (Yr Alban) 2005**
**SI 2005 Rhif 537(W.47).: Rheoliadau Cwotâu Cynnyrch Llaeth (Cymru) 2005**

- *Rheolau ar gyfer gweinyddu cwotâu llaeth yn y Deyrnas Unedig. (Mae rhifau'r rheoliadau yn cyfeirio at y DPQR yn Lloegr)*

| Rheoliad | | Adran(nau)'r Canllaw |
|---|---|---|
| 1 | Dyfynnu a chychwyn | |
| 2 | Dehongliad | |
| 3 | Cymhwysiad | |
| 4 | Cofrestri a hysbysiadau i gael eu cadw a'u paratoi gan yr Ysgrifennydd Gwladol | Rhan 3 |
| 5 | Cymeradwyo prynwyr | Rhan 7 |
| 6 | Cyfrifoldebau cynhyrchwyr a phrynwyr o ran cofrestru a chyflenwadau | Rhannau 5, 6 & 7 |
| 7 | Archwilio cofnodion yng nghofrestri'r Ysgrifennydd Gwladol | Rhan 5 |
| 8 | Cofrestri yn dystiolaeth | |
| 9 | Trosglwyddo cwota wrth drosglwyddo tir: cyffredinol | Rhan 8 |
| 10 | Trosglwyddo rhan o ddaliad | Rhan 8 |
| 11 | Bwriad i ddosrannu cwota | Rhan 8 |
| 12 | Achosion lle y mae'n rhaid dosrannu cwota trwy gyfryngu | |

This publication was archived on 31 March 2015

| | | |
|---|---|---|
| 13 | Trosglwyddo cwota heb drosglwyddo tir | Rhan 8 |
| 14 | Cadw cwota ar ddiwedd tenantiaeth | Rhan 8 |
| Rheoliad | | Adran(nau)'r Canllaw |
| 15 | Trosglwyddo cwota dros dro | Rhan 9 |
| 16 | Cyfyngiadau ar drosglwyddo cwota | Rhan 9 |
| 17 | Canlyniadau methiant i gyflwyno hysbysiad trosglwyddo | Rhan 9 |
| 18 | Dyraniad o'r gronfa wrth gefn genedlaethol | |
| 19 | Ailddyrannu cwota dros dro | Rhan 12 |
| 20 | Dyraniad arbennig o gwota | |
| 21 | Trosi cwota: cyffredinol | Rhan 11 |
| 22 | Trosi cwota: cyfyngiad ar drosglwyddo cwota wedi'i drosi yn y flwyddyn y'i troswyd | Rhan 11 |
| 23 | Addasu cwota prynwr | Rhannau 3 & 7 |
| 24 | Cyfyngiad ar ddefnyddio cwota mewn Ardal Ynysoedd Yr Alban | Rhannau 8 & 9 |
| 25 | Penderfynu a oes angen gostwng addasiad braster menyn ar i lawr o ran cyflenwadau | Rhan 13 |
| 26 | Penderfynu a oes lefi ar gyflenwadau yn daladwy | Rhan 13 |
| 27 | Ailddyrannu cwota cynhyrchwyr | Rhannau 12 & 13 |
| 28 | Penderfynu rhwymedigaeth ar gyfer lefi ar gyflenwadau | Rhannau 5 & 13 |
| 29 | Hysbysiad am rwymedigaeth lefi | Rhan 13 |
| 30 | Penderfynu rhwymedigaeth ar gyfer lefi ar werthiannau uniongyrchol | Rhannau 6 & 13 |
| 31 | Talu ac adennill lefi | Rhan 13 |
| 32 | Atal osgoi lefi | Rhan 13 |
| 33 | Gwybodaeth | Rhannau 16 & 17 |
| 34 | Paratoi a chadw cofnodion | Rhannau 16 & 17 |
| 35 | Datganiadau a chrynodebau blynyddol | Rhannau 6 & 7 |
| 36 | Cosbau gweinyddol | Rhan 6 |
| 37 | Cadw iawndal yn ôl neu ei adennill | |
| 38 | Atalfaelu cwota | Rhan 14 |
| 39 | Adfer cwota | Rhan 14 |
| 40 | Troseddau a chosbau troseddol | |
| 41 | Dirymiadau a newidiadau | |

This publication was archived on 31 March 2015

## Cosbau

### Atalfaelu cwota

Gellir atalfaelu cwota:

- os y'i cafwyd trwy dwyll,
- os na chynhyrchwyd ar ei gyfer yn ystod y flwyddyn gwota,
- os na chyflwynwyd datganiad blynyddol o werthiannau uniongyrchol,
- os na chaiff ei drosglwyddo i'r meddiannydd newydd pan mae'r tir yn cael ei drosglwyddo.

### Prynwr yn cyflwyno datganiad blynyddol yn hwyr

Bydd y gosb gyfwerth â'r lefi sy'n daladwy ar orgynhyrchu 0.01% ar gyflenwadau gan gynhyrchwyr, fesul pob diwrnod y mae'r datganiad yn hwyr yn cael ei gyflwyno. Yr isafswm tâl yw 100 ewro; uchafswm y gosb yw 100,000 ewro ar gyfer y datganiad blynyddol, a £60 a £60,000 yn eu tro ar gyfer y datganiad blynyddol diwygiedig.

### Cyflwyno datganiad gwerthiannau uniongyrchol yn hwyr

Bydd y lefi'n daladwy ar y gyfradd lawn ar unrhyw or-werthiannau.

Os nad oes unrhyw or-werthiannau, bydd lefi'n daladwy ar yr hyn sydd gyfwerth â gorgynhyrchu 0.01% o'r cwota – uchafswm 1000 ewro.

Mae isafswm cosb o 100 ewro.

Os oes angen inni fynd i eiddo prynwr neu werthwr uniongyrchol er mwyn casglu datganiad blynyddol hwyr, byddwn hefyd yn codi tâl am unrhyw gostau sydd ynghlwm wrth yr ymweliad.

Os yw cwota'n cael ei atalfaelu oherwydd na ddanfonwyd datganiad gwerthiannau uniongyrchol erbyn y dyddiad cau, ni chaiff ei adfer tan y flwyddyn yn dilyn y flwyddyn y derbynnir y datganiad ynddi.

## Lefi

Bydd lefi'n daladwy am:

### Orgynhyrchu ar y cwota

Mae lefi cyfanwerthu yn daladwy gan y prynwr, ond gellir ei hawlio'n ôl oddi wrth y cynhyrchwyr perthnasol.

Mae lefi gwerthiannau uniongyrchol yn daladwy gan y cynhyrchwyr perthnasol.

Cyfrifir lefïau ar gyfradd o € 27.83 fesul 100 cilogram.

This publication was archived on 31 March 2015

### Datganiad cyflenwadau anghywir gan brynwr

Os gwelwn nad yw prynwr wedi datgan ei holl gyflenwadau ac os yw'r Deyrnas Unedig yn cyrraedd sefyllfa lefi, bydd rhaid iddynt dalu lefi ar y cyfanswm wedi'i addasu ar gyfer braster menyn y maent wedi'i dan-ddatgan.

Os yw'r ffigyrau cyflenwi yn anghywir ac os nad oes unrhyw lefi'n daladwy, byddwn yn codi cosb sydd gyfwerth â'r lefi fyddai wedi bod yn daladwy ar 0.5% o'r hyn a or- neu a dan-ddatganwyd. Isafswm y gosb ar gyfer unrhyw ddatganiad anghywir yw £60 hyd at uchafswm o £60,000.

### Datganiad gwerthiannau uniongyrchol anghywir

Os gwelwn nad yw gwerthwr uniongyrchol wedi datgan ei holl werthiannau uniongyrchol ac os yw'r Deyrnas Unedig yn cyrraedd sefyllfa lefi gwerthiannau uniongyrchol, bydd rhaid iddynt dalu'r lefi ar y gyfradd lawn (fel arfer tua 25 i 30 ceiniog y litr) ar y gwerthiannau na ddatganwyd mohonynt.

Os gwelwn fod gwerthwr uniongyrchol wedi gorddatgan ei werthiannau, neu wedi'u tanddatgan mewn blwyddyn pan nad oes lefi'n daladwy, codir cosb yn gyfwerth â'r lefi fyddai'n daladwy ar 0.5% o'r swm dan sylw. Isafswm y gosb yw £60 ac uchafswm y gosb yw £600.

## Camau Cyfreithiol

Gall yr Asiantaeth Taliadau Gwledig ystyried cymryd camau cyfreithiol yn erbyn person neu gwmni sydd wedi torri rheoliadau CAP neu sydd wedi torri cyfraith y Comisiwn Ewropeaidd neu'r Deyrnas Unedig. Dylech wybod efallai y cymerir camau cyfreithiol o dan yr amgylchiadau canlynol:

### Peidio cydymffurfio â Rheoliadau

Os methwch gydymffurfio â gofynion deddfwriaeth berthnasol y Gymuned neu'r Rheoliadau Cwotâu Cynnyrch Llaeth, efallai y cymerwn gamau cyfreithiol yn eich erbyn. Os ceir euogfarn ddiannod, bydd person yn agored i gael dirwy heb fod yn uwch na lefel 5 ar y raddfa gyffredinol, neu, os ceir euogfarn ar dditiad, i ddirwy.

### Twyll

Efallai y cymerwn gamau cyfreithiol yn erbyn unrhyw berson sy'n wybyddus yn gwneud datganiad ffug, sy'n peri i ddatganiad ffug gael ei wneud neu sy'n defnyddio dogfen yn cynnwys gwybodaeth ffug yn gysylltiedig â'r Rheoliadau. Os ceir euogfarn ddiannod, bydd person yn agored i gael dirwy heb fod yn uwch na lefel 5 ar y raddfa gyffredinol, neu, os ceir euogfarn ar dditiad, i ddirwy.

### Peidio talu lefi

Mae gan yr Asiantaeth y grym i gymryd camau cyfreithiol sifil i adennill unrhyw ddyled sy'n daladwy gan berson penodedig i'r Gymuned Ewropeaidd.

## Troseddau

Mae'n drosedd droseddol i waredu cwota y mae gan ddeiliaid cwota reswm i gredu sydd wedi'i gofrestru'n anghywir yn eu henwau nhw.

This publication was archived on 31 March 2015

### Methiant i gadw cofnodion

Bydd unrhyw berson sy'n methu cadw cofnodion yn unol â'r hyn sy'n ofynnol ac a gyhoeddir yn y DPQR yn euog o drosedd. Bydd person o'r fath, o gael euogfarn ddiannod, yn agored i gael dirwy heb fod yn uwch na'r uchafswm statudol (Prydain Fawr), £2,000 (Gogledd Iwerddon), neu, os ceir euogfarn ar dditiad, i ddirwy.

This publication was archived on 31 March 2015

A

# Atodiad 5 Enghraifft o lythyr Rhoi Gwybod am Newidiadau

CYNHYRCHWR
SUN VALLEY FARM
SUNNYDALE
MILKSHIRE
EN1 5OB

10 Mawrth 2011

Rhif TREG : A12345

## Cwotâu Llaeth – Rhoi Gwybod am Newidiadau

**Mae er eich lles chi eich bod yn cadw'r ddogfen hon i'r dyfodol ac yn danfon copi at eich asiant cwota a/neu brynwr llaeth os ydych yn aros am arian i gael ei ryddhau.**

**Gwnaed y newidiadau a nodir yma i'r gofrestr cwota ers eich llythyr Rhoi Gwybod am Newidiadau diwethaf. Dylech gadarnhau fod y manylion hyn yn gywir a chysylltwch â'r RPA yn syth os oes gennych ymholiad.**

| | |
|---|---|
| Blwyddyn Gwota | : 2010/11 |
| Math o Gwota | : Cyfanwerthu Cyffredin |
| Math o Symudiad | : Trosglwyddiad Dros Dro (Les) |
| I Gynhyrchwr | : A Nother |
| Faint Symudwyd | : 50,000 litr @ braster menyn o : 4.500000% |
| Dyddiad Gweithredol | : 01 Mawrth 2011 |
| Dyddiad Awdurdodi | : 10 Mawrth 2011 |
| Sypyn/Cyf Dog/Rhif Dog | : 853999/1/1234567 |
| Prynwr | : A DAIRY LTD |

**Manylion y Flwyddyn Gwota Gyfredol - 2010/11**

Cwota Cyfanwerthu Parhaol (yn cynnwys SLOM) : 150,000 litr @ braster menyn 4.500000 %

Cwota Cyfanwerthu Net (yn cynnwys SLOM) : 100,000 litr @ braster menyn 4.500000 %

This publication was archived on 31 March 2015

Efallai y defnyddir yr adran hon i roi cyhoeddusrwydd i faterion cwota llaeth neu i atgoffa am ddyddiadau cau sydd ar fin digwydd.

# Atodiad 6 Cyfrifiad seiliau braster menyn

## Cyfrifiad braster menyn (parhaol)

| Cwota cyfanwerthu parhaol cyfredol | | Sail braster menyn parhaol cyfredol | | A |
|---|---|---|---|---|
| litr | X | . % | = | |
| | | | | + |
| **Cwota cyfanwerthu heb ei ddefnyddio a drosglwyddwyd i mewn** | | **Sail braster menyn cwota a drosglwyddwyd i mewn** | | **B** |
| litr | X | . % | = | |
| | | | | = |
| | | | | C |
| | | | CYFANSWM | |
| | | | | ÷ |
| **Cwota cyfanwerthu parhaol cyfredol** | | **Cwota cyfanwerthu heb ei ddefnyddio a drosglwyddwyd i mewn** | | **D** |
| litr | + | litr | = | |
| | | | | = |
| | | | | E |
| | | SAIL BRASTER MENYN PARHAOL NEWYDD | | . % |

**NODIADAU**

1 A + B = C C ÷ D = E E = Sail braster menyn newydd

2 Ystyr cwota cyfanwerthu parhaol cyfredol yw faint o gwota cyfanwerthu parhaol sydd gennych yn barod, ac eithrio cwota a drosglwyddwyd i mewn wedi'i ddefnyddio yn ystod y flwyddyn gwota gyfredol.

3 Ystyr cwota cyfanwerthu heb ei ddefnyddio yw faint o gwota cyfanwerthu heb ei ddefnyddio rydych yn dymuno ei drosglwyddo i mewn.

## Cyfrifiad braster menyn (parhaus – ar gyfer lesio neu drosglwyddo'i mewn gwota heb ei ddefnyddio)

| Cwota cyfanwerthu net cyfredol | | Sail braster menyn parhaus cyfredol | | A |
|---|---|---|---|---|
| ltrs | X | . % | = | |
| | | | | + |
| **Cwota cyfanwerthu newydd i mewn** | | **Sail braster menyn cwota i mewn** | | **B** |
| ltrs | X | . % | = | |
| | | | | = |
| | | | | C |
| | | | CYFANSWM | |
| | | | | ÷ |
| **Cwota cyfanwerthu net cyfredol** | | **Cwota cyfanwerthu newydd i mewn** | | **D** |
| ltrs | + | ltrs | = | |
| | | | | = |
| | | | | E |
| | | SAIL BRASTER MENYN PARHAUS NEWYDD | | . % |

**NODIADAU**

1 A + B = C C ÷ D = E E = Sail braster menyn newydd

This publication was archived on 31 March 2015

2 Ystyr cwota cyfanwerthu net cyfredol yw'r holl gwota cyfanwerthu sydd gennych, gan gynnwys unrhyw beth a lesiwyd i mewn.

3 Ystyr cwota cyfanwerthu newydd yw'r holl gwota cyfanwerthu yr ydych yn dymuno ei gael trwy les neu drosglwyddiad parhaol.

## Cyfrifiad braster menyn (parhaus – ar gyfer lesio neu drosglwyddo allan gwota heb ei ddefnyddio)

| Cwota cyfanwerthu net cyfredol | | Sail braster menyn parhaus cyfredol | | A |
|---|---|---|---|---|
| litr | X | . % | = | |
| | | | | - |
| **Cwota cyfanwerthu allan** | | **Sail braster menyn parhaol** | | **B** |
| litr | X | . % | = | |
| | | | | = |
| | | | CYFANSWM | C |
| | | | | ÷ |
| **Cwota cyfanwerthu net cyfredol** | | **Cwota cyfanwerthu allan** | | **D** |
| litr | - | litr | = | |
| | | | | = |
| | | SAIL BRASTER MENYN PARHAUS NEWYDD | | E: . % |

**NODIADAU**

1 A - B = C C ÷ D = E E = Sail braster menyn newydd

2 Ystyr cwota cyfanwerthu net cyfredol yw'r holl gwota cyfanwerthu sydd gennych, gan gynnwys unrhyw beth a lesiwyd i mewn.

3 Ystyr cwota cyfanwerthu yw faint o gwota cyfanwerthu heb ei ddefnyddio rydych yn dymuno ei drosglwyddo neu ei lesio allan.

## Cyfrifiad braster menyn (i'r dyfodol – o ddechrau'r flwyddyn gwota nesaf)

| Cwota cyfanwerthu parhaol cyfredol | | Sail braster menyn i'r dyfodol cyfredol | | A |
|---|---|---|---|---|
| litr | X | . % | = | |
| | | | | + |
| **Cwota cyfanwerthu a drosglwyddwyd i mewn** | | **Sail braster menyn cwota a drosglwyddwyd i mewn** | | **B** |
| litr | X | . % | = | |
| | | | | = |
| | | | CYFANSWM | C |
| | | | | ÷ |
| **Cwota cyfanwerthu parhaol cyfredol** | | **Cwota cyfanwerthu a drosglwyddwyd i mewn** | | **D** |
| litr | + | litr | = | |
| | | | | = |
| | | SAIL BRASTER MENYN I'R DYFODOL NEWYDD | | E: . % |

**NODIADAU**

1 A + B = C C ÷ D = E E = Sail braster menyn newydd.

This publication was archived on 31 March 2015

2 Ystyr cwota cyfanwerthu parhaol cyfredol yw faint o gwota cyfanwerthu parhaol sydd gennych yn barod, yn cynnwys cwota a drosglwyddwyd i mewn yn ystod y flwyddyn gwota gyfredol.

3 Ystyr cwota cyfanwerthu a drosglwyddwyd i mewn yw cyfanswm y cwota cyfanwerthu rydych yn dymuno'i gael, wedi neu heb ei ddefnyddio.

This publication was archived on 31 March 2015

# Atodiad 7 Geirfa termau

Rhoddwn yma ddiffiniadau o dermau a byrfoddau a ddefnyddir yn gyffredin weth weinyddu cwotâu llaeth.

**Dyraniad cwota:**

Y dyraniad cwota gwreiddiol, a wnaed i gynhyrchwyr yn 1984

*Roedd yn seiliedig ar eu cynhyrchu yn 1981 ar gyfer cwota Gwerthiannau Uniongyrchol, neu 1983 ar gyfer cwota cyfanwerthu. Yr enw ar y rhain yw'r 'blynyddoedd cyfeiriol'*

**Dosrannu cwota:**

Y drefn o rannu cwota rhwng rhannau gwahanol o ddaliad, pan mae'r tir yn cael ei werthu neu ei lesio allan. Rhaid i bawb a chanddynt fuddiant yn y daliad gytuno â'r dosraniad

**Prynwr cymeradwy:**

Person neu gwmni a gymeradwywyd gan yr Asiantaeth Taliadau Gwledig i brynu llaeth

*Rhaid i bob cynhyrchwr a phobl heb fod yn gynhyrchwyr gofrestru'r cwota gyda phrynwr llaeth cymeradwy*

**Cyfryngydd:**

Person a benodwyd i benderfynu ar rannu (dosrannu) cwota pan mae rhan o ddaliad yn cael ei werthu neu ei drosglwyddo allan

*Wrth wneud ei benderfyniad, bydd cyfryngydd yn cymryd i ystyriaeth y darnau tir a ddefnyddir ar gyfer cynhyrchu llaeth*

**BACS (System Glirio Awtomeiddiedig Bancwyr):**

System ar gyfer taliadau'n syth i gyfrif banc neu gymdeithas adeiladu, heb orfod defnyddio siec

**Braster menyn:**

Cynnwys braster llaeth neu gynnyrch llaeth. Sefydlir y cynnwys braster menyn pan mae'r llaeth yn cael ei samplo a'i ddadansoddi

**Sail braster menyn:**

Mae gan bob cynhyrchwr a chanddo gwota cyfanwerthu sail braster menyn sydd ynghlwm wrth y cwota hwnnw. Nid oes gan gwota gwerthiannau uniongyrchol sail braster menyn

*Cafodd y sail braster menyn ei ddosrannu'n wreiddiol i bob cynhyrchwr cyfanwerthu yn 1987*

**Ffigwr cyfeiriol braster menyn:**

Ffordd arall o ddisgrifio 'Sail braster menyn'

**Cwota glân:**

Term arall am 'gwota heb ei ddefnyddio'

**Llaeth tor:**

Hylif menyn trwchus a gynhyrchir o'r cadeiriau yn yr oriau'n syth ar ôl bwrw llo. Mae'n cynnwys y gwrthgyrff pwysig sydd eu hangen ar y llo i'w helpu i oroesi

**Atalfaelu cwota:**

Gallwn atalfaelu rhan o gwota cynhyrchwr neu'r cwota cyfan os nad yw'n cadw at y rheolau

*Gall cynhyrchwr wneud cais i gael y cwota wedi'i adfer*

**Trosiad:**

Gall cynhyrchwyr newid neu 'drosi' eu cwota o gyfanwerthu i werthiannau uniongyrchol, neu fel arall

*Gall trosiad fod dros dro neu'n barhaol*

**CPH No Rhif Sir/Plwyf/Daliad:**

Defnyddir i adnabod darn penodol o dir

**Canolfan Gwasanaethu Cwsmeriaid:**

Uned o'r RPA yn Workington, sy'n gyfrifol am ofalu am y Gofrestr Cwsmeriaid
Rhif Ffôn 0845 603 7777

**Toriadau:**

Trowch at 'Toriadau cwota'

**DARD:**

Adran Amaeth a Datblygu Gwledig (Gogledd Iwerddon)

**Datganiad:**

Datganiad neu 'adroddiad' gan:

- brynwr cyfanwerthol, yn datgan faint o laeth a gyflenwyd i'r prynwr gan gynhyrchwyr,
- werthwr uniongyrchol, yn datgan faint o laeth neu gynnyrch llaeth a farchnadwyd yn uniongyrchol i'r cyhoedd.

This publication was archived on 31 March 2015

**Defra:**

Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig

**Cyflenwadau:**

Llaeth a gyflenwyd gan gynhyrchwr cyfanwerthu i'w brynwr(wyr).

**Gwerthiannau uniongyrchol:**

Cynnyrch y mae cynhyrchwr yn ei farchnata'n uniongyrchol i'r cyhoedd

**Cwota gwerthiannau uniongyrchol:**

Trowch at 'Cwota'

**DPQR – Rheoliadau Cwotâu Cynnyrch Llaeth 2005:**

Deddfwriaeth y Deyrnas Unedig sy'n rheoli cwotâu llaeth. Mae fersiynau ar wahân o'r DPQR ar gyfer Lloegr, Yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon

**Ewro:**

Yr uned ariannol a ddefnyddir gan y Gymuned Ewropeaidd at ddibenion cyfrifyddol

**Cynnwys Braster:**

Trowch at 'Braster menyn'

**Cyfyngiadau ar symud buchesi:**

Rheoliadau sy'n berthnasol i symud anifeiliaid o ddaliadau a effeithiwyd gan rai heintiau penodol

*Gall cynhyrchwr wneud cais am gwota ychwanegol i wneud yn iawn am beth gorgynhyrchu a achoswyd gan gyfyngiadau o'r fath*

**Daliad:**

Yr holl unedau cynhyrchu y mae un cynhyrchwr yn eu defnyddio. Gall gynnwys un neu fwy nac un fferm

**Archwiliadau:**

Ymweliadau cyffredin â nifer o gynhyrchwyr a phrynwyr, a gynhelir yn unol â deddfwriaeth y Gymuned Ewropeaidd. Mae'r ymweliadau'n cynnwys archwilio cofnodion i sicrhau bod y datganiadau blynyddol wedi cael eu cwblhau'n gywir

**Lesio cwota:**

Cytundeb rhwng dau gynhyrchwr ar gyfer trosglwyddo cwota heb ei ddefnyddio heb dir dros dro

**Lesai:**

Person neu gwmni sydd wedi cytuno lesio cwota i mewn

*Rhaid i bob deiliad cwota, boed yn barhaol neu dros dro, gofrestru gyda'r Asiantaeth Taliadau Gwledig*

**Lesydd:**

Cynhyrchwr neu gwmni sydd wedi cytuno lesio cwota allan

*Dim ond cwota parhaol heb ei ddefnyddio ellir ei lesio allan*

**Lefi:**

Dirwy a godir ar gynhyrchwyr neu brynwyr sy'n mynd dros y cwota a gytunwyd iddynt. Rhaid i brynwr fynd ati i godi'r lefi ar y cynhyrchwyr a gyfrannodd at ei fil lefi

**Cyfradd lefi:**

Pennir hyn yn Rheoliadau'r Gymuned Ewropeaidd ar € 27.83 fesul 100cilogram (tua € 0.29 y litr). Mae hyn wedyn yn cael ei drosi i Sterling ar y gyfradd gyfnewid a bennir ar 31 Mawrth

**Aelod Wladwriaethau:**

Gwledydd sy'n perthyn i'r Undeb Ewropeaidd

**Llaeth:**

At ddibenion cwotâu llaeth, mae 'llaeth' yn golygu llaeth gwartheg

**Llaeth a farchnadwyd:**

Mae'n cynnwys llaeth neu gynnyrch llaeth sy'n gadael daliad cynhyrchwr yn ystod unrhyw flwyddyn gwota, boed yn cael ei werthu neu'n cael ei rannu am ddim. D.S. bydd llaeth a gynhyrchir ar neu cyn 31 Mawrth mewn unrhyw flwyddyn gwota, ond nad yw'n gadael y daliad tan neu wedi 1 Ebrill yn y flwyddyn gwota ddilynol yn cyfrif ar gyfer cwota ar gyfer y flwyddyn y mae'r llaeth yn gadael y daliad ynddi.

**Lefi Llaeth Atodol:**

Trowch at 'Lefi'

This publication was archived on 31 March 2015

**Cronfa Wrth Gefn Genedlaethol:**

Cwota a ddyranwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd i Aelod Wladwriaeth ond na chafodd ei ddyrannu i gynhyrchwyr

**Sail braster menyn parhaus:**

Sail braster menyn parhaol cynhyrchwr, fel y'i newidiwyd ar gyfer y flwyddyn gwota gyfredol gan newidiadau dros dro i'w cwota

**Dyddiad gweithredol:**

Y dyddiad y mae symudiad cwota yn digwydd arno:

- ar gyfer trosglwyddiadau parhaol gyda thir, y dyddiad yw'r dyddiad y mae'r tir yn newid dwylo arno
- ar gyfer trosglwyddiadau parhaol heb dir, y dyddiad yw'r dyddiad y mae'r cwota'n newid dwylo arno
- ar gyfer cwota sy'n cael ei lesio – y dyddiad y mae'r lesydd yn llofnodi'r ffurflen
- ar gyfer trosIadau parhaol – y dyddiad a ddewisir gan y cynhyrchwr

**Cwota cyffredin:**

Cwota Llaeth. Cafwyd dyraniadau o gwota arbennig ('SLOM'), ond erbyn hyn cafodd yr holl gwota arbennig ei drosi'n gwota cyffredin.

**Cosbau:**

Trowch at 'Lefi'; 'Atalfaelu'

**Sail braster menyn parhaol:**

Y sail braster menyn sydd ynghlwm wrth gwota parhaol cynhyrchwr

**Trosiad parhaol:**

Trowch at 'Trosiad'

**Trosglwyddiad Parhaol :**

Cytundeb i drosglwyddo cwota'n barhaol o un cynhyrchwr i un arall:

- gyda thir
- heb dir

Gellir trosglwyddo'n barhaol gwota wedi neu heb ei ddefnyddio

**Cwota Cynradd:**

Trowch at 'Dyraniad cwota'

**Cynhyrchwr:**

Person neu fusnes sy'n ffurfio daliad, sy'n cynhyrchu a marchnata llaeth neu sy'n paratoi gwneud hynny yn fuan iawn

**Uned gynhyrchu:**

Fferm neu ran o ddaliad a ddefnyddir i gynhyrchu llaeth neu gynnyrch llaeth

**Bwriad i ddosrannu cwota i dir:**

Cytundeb i ddosrannu cwota i bob rhan o ddaliad cyn cyflawni bwriad i werthu neu lesio'r tir

*Mae'r cytundeb yn ddilys am chwe mis*

**Prynwr:**

Prynwr neu brosesydd contract llaeth y mae cwota cyfanwerthu cynhyrchwr wedi'i gofrestru ag ef.

**Cwota prynwr:**

Cyfanswm y cwota cyfanwerthu y mae cynhyrchwyr wedi'i gofrestru gyfa phrynwr llaeth penodol

**Cwota:**

Y cyfanswm a gytunwyd o laeth a chynnyrch llaeth y gall ffermwr neu 'gynhyrchwr' ei farchnata yn ystod blwyddyn gwota heb fod yn agored i dalu lefi.

Mae dau fath:

- cwota cyfanwerthu – ar gyfer llaeth a gyflenwir i brynwr
- cwota gwerthiannau uniongyrchol – ar gyfer cynnyrch sy'n cael ei farchnata i'r cyhoedd

**Toriadau cwota:**

Gostyngiad yng nghwota cynhyrchwr sy'n digwydd oherwydd fod y Gymuned Ewropeaidd neu Aelod Wladwriaeth yn torri'r cwota cenedlaethol

*Pan mae hyn yn digwydd, efallai y caiff cynhyrchwyr daliadau yn iawndal am golli cwota*

**Cofrestr cwota:**

Y cofnod, a gedwir gan yr Asiantaeth Taliadau Gwledig, o fanylion yr holl ddeiliaid cwota llaeth a faint o gwota sydd ganddynt

**Blwyddyn gwota:**

Mae'n rhedeg o 1 Ebrill tan 31 Mawrth y flwyddyn ganlynol

**Ailddyraniad:**

This publication was archived on 31 March 2015

- Dosbarthiad o gwota o'r Gronfa Wrth Gefn Genedlaethol, neu
- Ailddosbarthiad o gwota heb ei ddefnyddio fel rhan o'r cyfrifiad lefi

**Ffigwr cyfeiriol:**

Trowch at 'Ffigwr cyfeiriol braster menyn'

**Swm cyfeiriol:**

Term yn golygu 'cwota', a ddefnyddiwyd yn Rheoliadau'r Gymuned Ewropeaidd yn y gorffennol

**Blwyddyn gyfeiriol:**

Y flwyddyn gynhyrchu a ddefnyddir yn sail ar gyfer dyrannu cwota cynradd neu ar gyfer priodoli sail braster menyn i gwota cyfanwerthu

**Cofrestru:**

- cytundeb gan ddeiliad cwota cyfanwerthu i werthu peth o'i laeth neu'r cyfan ohono i brynwr llaeth penodol, neu'r
- cofnod o fanylion cynhyrchwr ar y gofrestr cwota llaeth.

**Rhif cofrestru:**

Trowch at 'Rhif Cofrestru Masnachwr'

Trowch hefyd at 'Canolfan Gwasanaethu Cwsmeriaid'.

**Adfer:**

Gall cynhyrchwr y cafodd eu cwota ei atalfaelu, neu feddiannydd newydd tir yr oedd cwota a atalfaelwyd ynghlwm wrtho, wneud cais i'w gael wedi'i adfer, os bodlonir rhai amodau

**RICS (Sefydliad Brenhinol Syrfewyr Siartredig):**

Y corff y rhoddwyd iddo'r grym i benodi Cyfryngydd yn Lloegr a Chymru

**Ardaloedd clustnodedig:**

Rhai ardaloedd Ynysoedd Yr Alban; yn yr ardaloedd hyn ni all cynhyrchwyr ond lesio neu drosglwyddo i neu oddi wrth gynhyrchwyr oddi fewn i'r un ardal. (Gellir lesio cwota i fewn o'r tu allan i ardal glustnodedig, er mwyn gwneud yn iawn am gynhyrchu yn yr ardal honno)

**SGRPID:**

Cyfarwyddiaeth Taliadau Gwledig ac Archwiliadau Llywodraeth Yr Alban

**Dynodydd Busnes Sengl:**

Rhif adnabod newydd yr RPA (naw digid) ar gyfer busnes unigol

Bydd gan ddeiliaid cwota llaeth, cynhyrchwyr a phrynwyr Rif Cofrestru Masnachwr chwe digid hefyd, y mae'n rhaid ei ddefnyddio wrth gysylltu â ni am gwota

**Cwota SLOM:**

Acronym Iseldireg yn disgrifio dyraniadau arbennig o gwota i gynhyrchwyr na chawsant gwota cynradd yn 1984 gan eu bod ynghlwm wrth waith marchnata arall ar gynlluniau

Erbyn hyn cafodd yr holl gwota SLOM ei drosi'n gwota cyffredin

**Lefi atodol:**

Trowch at 'Lefi'

**Gwyliadwriaeth:**

Sampl o drosglwyddiadau, a ddewiswyd ar gyfer archwiliadau arbennig

*Byddwn yn cynnal yr archwiliadau hyn cyn inni newid y gofrestr cwotâu ac fe roddwn wybod i'r cynhyrchwyr dan sylw*

**Trosi dros dro:**

Newid, dros dro, ar gais cynhyrchwr, gwota gwerthiannau uniongyrchol i gyfanwerthu, neu fel arall

*Mae trosiadau dros dro yn digwydd ar ddiwedd y flwyddyn gwota, er mwyn unioni unrhyw or gyflenwadau neu werthiannau uniongyrchol*

**Trosglwyddo dros dro:**

Trowch at 'Les'

**Rhif Cofrestru Masnachwr:**

Rhif chwe ffigwr a roddir i bob deiliad cwota llaeth

*Gall y rhif fod yn chwe digid neu'n gymysgedd o lythrennau a digidau*

*Dylid ei ddefnyddio wrth gysylltu ag adran cwotâu llaeth yr Asiantaeth Taliadau Gwledig*

**Trosglwyddiad:**

Trowch at 'Trosglwyddiad parhaol'; 'Les'

**Trosglwyddai:**

This publication was archived on 31 March 2015

Cynhyrchwr yn cael cwota ar sail parhaol

Dim ond cynhyrchwyr all gael cwota heb dir

**Trosglwyddydd:**

Deiliad cwota yn gwaredu cwota ar sail parhaol, naill ai gyda thir neu hebddo

**Rhif Treg (Cofrestru Masnachwr):**

Trowch at 'Rhif Cofrestru Masnachwr'

**TRQ:**

Ailddyraniad cwota dros dro (yn ôl blaenoriaeth) yn y cyfrifiad lefi i gynhyrchwr sydd wedi mynd dros ei gwota oherwydd y cadwyd gwartheg llaeth ychwanegol ar y daliad oherwydd cyfyngiad ar symud buchesi

**Cwota heb ei ddefnyddio:**

Cwota na chynhyrchwyd ar ei gyfer (sydd hefyd yn cael ei alw'n gwota glân')

Rhaid gofalu bob tro y cymerir ffigyrau cyflenwi wedi'u haddasu ar gyfer braster menyn wrth gyfrif faint o gwota heb ei ddefnyddio sydd ar gael i'w drosglwyddo neu i'w drosi

*Dim ond cwota heb ei ddefnyddio ellir ei lesio neu ei drosi*

**Cwota wedi'i ddefnyddio:**

Cwota y cynhyrchwyd ar ei gyfer neu a gafodd ei lesio allan i gynhyrchwr arall

**WAGRPD:**

Is-adran Taliadau Gwledig Llywodraeth Cynulliad Cymru

**Cyfwerth llaeth cyflawn:**

Cyfwerth llaeth cyflawn cynnyrch llaeth yw faint o laeth cyflawn a ddefnyddiwyd i wneud y cynnyrch sydd wedyn yn cael ei farchnata

**Cwota cyfanwerthu:**

Faint o laeth y mae gan gynhyrchwr hawl i'w gyflenwi i brynwr cyfanwerthu heb fod yn agored i dalu lefi

This publication was archived on 31 March 2015